**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda ac yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 19 Gorffennaf 2023, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. J.M. Evans, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, P. Prendergast, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn y cyfarfod:
Y Cynghorydd Mrs. E. Chard (yn arsylwi)

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**7. PENODI CADEIRYDD Y CYFARFOD**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A.J. Rutherford yn gadeirydd y cyfarfod.*

**8. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ms. J. McAlpine a D. Simmons.

**9. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth bob cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 9.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 7 Grange Court, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Tŷ Newydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: M. Blackwell<br>A. Walker<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0384<br><br>**DISGRIFIAD:** Gwaith trin coeden Sycamorwydden sy'n ddarostyngedig i |

| | |
|---|---|
| | Orchymyn Cadw Coed Rhif 2/28/1988 gan y cyn Gyngor Bwrdeistref Rhuddlan<br><br>**YMGEISYDD:** Miss Joanne Smith o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 9.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 19 Lynton Walk, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Plas Tirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0413<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad to gwastad a balconi llawr cyntaf yn y cefn a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Miss Sarah Parry o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 9.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 32 Weaverton Drive, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0364<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniadau unllawr ac addasiadau i'r annedd, yn cynnwys garej integrol<br><br>**YMGEISYDD:** Nikolay o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 9.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 5 Stryd Bodfor, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0393<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i fwyty/tecawê bwyd poeth (Defnydd Dosbarth A3), gosod ffliw echdynnu a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Yashir Molik, 17 – 19 Stryd Cinmel, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 9.5 | **AIL-YMGYNGHORI**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE:** 59 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Plas Tirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2022/0920<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod ffenestr dormer yn y cefn ac addasiadau i'r to a'r talcen i ganiatáu gwneud yr atig yn ystafell<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Chris Powel o'r cyfeiriad uchod<br><br>**PENDERFYNIAD BLAENOROL** – Dim gwrthwynebiad<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 9.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** George Hotel, 37 Stryd y Frenhines, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0452<br><br>**DISGRIFIAD**: Defnyddio llawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad fel un fflat hunan-gynhwysol<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. L. Wright o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 9.7. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 157-159 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: A.J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0435<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd rhan o'r feithrinfa sy'n bodoli eisoes i ffurfio un annedd a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Chris Walsh, Welsh Commercial Properties, Swyddfa 6, Tŷ Hanover, Y Roe, Llanelwy<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**10. APÊL CYNLLUNIO 45/2022/0533: APÊL RHIF CAS-02522-K5Z4C4 ROGER W. JONES, FFORDD CEFNDY, Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 11.9 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2022, adroddwyd y cyflwynwyd apêl gan yr ymgeisydd yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol am wrthod rhoi caniatâd cynllunio i "adeiladu raciau buarth allanol ychwanegol" ar y safle uchod. Penderfynir ar yr apêl trwy gyfnewid datganiadau ysgrifenedig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**11. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi diweddu.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …..21.09.2023………...